| | |
|---|---|
| **Pwyllgor :** | **Pwyllgor Trwyddedu Canolog** |
| **Dyddiad :** | **15 Medi 2014** |
| **Teitl :** | **Cadeiryddiaeth y Pwyllgor Trwyddedu Canolog a'r Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol** |
| **Awdur :** | **Uwch Gyfreithiwr** |
| **Gweithredu :** | **Ystyried yr opsiynau** |

**1. Cefndir**

1.2 Yn ei gyfarfod diwethaf, mynegodd y Pwyllgor ei anfodlonrwydd nad oedd yn medru ethol yr un aelod yn Gadeirydd ar y Pwyllgor Trwyddedu Canolog a'r Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol.

1.3 Sefydlwyd y Pwyllgor Trwyddedu Canolog i ymdrin â materion o dan Ddeddf Trwyddedu 2003 a Deddf Gamblo 2005. Mae'n ofynnol yn statudol i sefydlu'r pwyllgor hwn, ond ni all ystyried unrhyw fater arall. Fel canlyniad sefydlodd y Cyngor y Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol i benderfynu ar faterion trwyddedu eraill.

1.4 Yn gyfansoddiadol felly maent yn ddau bwyllgor gwahanol sy'n cynnal cyfarfodydd ar wahân . Serch hynny, mae'r Cyngor hefyd wedi penderfynu y bydd y ddau bwyllgor yn cynnwys yr un pymtheg aelod, ac mae hynny wedi ei gynnwys yn y Cyfansoddiad.

1.5 Mae'r Cyfansoddiad hefyd yn darparu na all yr un aelod fod yn gadeirydd ar fwy nag un pwyllgor. O dan y Cyfansoddiad presennol felly rhaid penodi dau aelod gwahanol i gadeirio'r pwyllgorau.

1.6 Efallai yr hoffai'r pwyllgor ystyried, gan fod aelodaeth y pwyllgorau yn gyfansoddiadol yr un fath, os byddai budd i ganiatáu'r un aelod i gadeirio'r ddau bwyllgor.

1.7 Pe bai'r Pwyllgor o blaid yr opsiwn yma, byddai'n golygu diwygio'r Cyfansoddiad a byddai'n rhaid cyflwyno'r argymhelliad i gyfarfod o'r Cyngor Llawn am gymeradwyaeth.

**2. Argymhelliad**

2.1 Gofynnir am farn y pwyllgor.